Dogfen ir Cyhoedd

# GŴYS A RHAGLEN

# SUMMONS AND AGENDA

**ar gyfer**

**for a**

**CYFARFOD BLYNYDDOL O CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**a gynhelir yn**

**to be held at the**

**SIAMBR Y CYNGOR**
**SWYDDFA'R SIR**
**LLANGEFNI**

**COUNCIL CHAMBER**
**COUNCIL OFFICES**
**LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH, 14 MAI 2019**
**am 2.30 o'r gloch yp**

**TUESDAY, 14 MAY, 2019**
**at 2.30 pm**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2019/20.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir a ddosberthir yn y cyfarfod).**

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2019/20.

**3. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**4. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

**5. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2019/20**

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod :-

- 10 Medi, 2019 - 2.00 o'r gloch yp
- 29 Hydref, 2019 (Arbennig) - 2.00 o'r gloch yp
- 10 Rhagfyr, 2019 - 2.00 o'r gloch yp
- 25 Chwefror, 2020 - 2.00 o'r gloch yp
- Mai 2020 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

**6. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, yr Arweinydd i roi gwybod enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys eu Portffolio.

**7. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2019/20**

Ethol Cadeirydd yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.

**8. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

**9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**10. CYRFF ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL- FFRAMWAITH AR GYFER TALIADAU I AELODAU YN 2019/20**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog 151 ar Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

**12. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**13. CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2019/20**

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 2 Mai 2019.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAI 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I FATER CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

**1.0** Rhaid i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn flynyddol.

**2.0** Nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 y prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

**3.0** O ran Aelodaeth Grwpiau mae'r sefyllfa fel a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plaid Cymru | - | 14 | |
| Llafur Cymru | - | 2 | |
| Y Grŵp Annibynnol | - | 7 | |
| Annibynnwyr Môn | - | 7 | (Yn cynnwys 1 Aelod Democratiaid Rhyddfrydol) |

**4.0** Mae'r Matrics yn yr atodiad yn nodi faint o seddi a ddyrennir i bob grŵp ar Bwyllgorau

**5.0** Cyfanswm nifer y seddau i'w dyrannu yw 113.

**6.0** Yn amlwg, oni bai bod y cyfrifiad yn cyrraedd rhif cyfan o ran cyfanswm cyffredinol y seddau a nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae'n anochel y bydd ffracsiynau.

**7.0** Ni all unrhyw grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun ac ni all ddyrannu sedd i Gynghorydd nad yw'n aelod o'r un grŵp gwleidyddol hwnnw.

**8.0 Argymhellion:-**

(i) Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol priodol a nifer y seddau y gellir eu priodoli i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(ii) Bod Arweinyddion y Grwpiau yn darparu manylion am unrhyw newid o ran aelodaeth Pwyllgorau i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
16/04/19

| Mai 2019 |
|---|
| May 2019 |

| Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 14 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 2 |
| Y Grwp Annibynnol | 7 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 7 |
| | |
| | 30 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| | *4.6667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *9.333333333*<br>10 |
| | *0.6667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *1.333333333*<br>2 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.666666667*<br>4 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.666666667*<br>4 |
| | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *20*<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

**LLED-FARNWROL**
**QUASI-JUDICIAL**

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *5.13333*<br>5 | *3.73333*<br>4 | *4.66667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *1.4*<br>1 | *1.4*<br>1 | *4.666667*<br>5 | *5.13333333*<br>5 |
| Llafur<br>Labour | *0.73333*<br>1 | *0.53333*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.2*<br>0 | *0.666667*<br>1 | *0.73333333*<br>1 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *2.56667*<br>2 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.56666667*<br>2 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *2.56667*<br>3 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.56666667*<br>3 |
| | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0* | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *11*<br>11 | *8*<br>8 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *3*<br>3 | *3*<br>3 | *10*<br>10 | *11*<br>11 |

**PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR**
**OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL**

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | CYSAG<br>SACRE | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 6 | 7 | 6 | 3 | 5 | 93 | 113 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *2.8*<br>3 | *3.266666667*<br>3 | *2.8*<br>3 | *1.4*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *43.4*<br>43 | *52.73333333*<br>53 |
| Llafur<br>Labour | *0.4*<br>1 | *0.466666667*<br>0 | *0.4*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.333333*<br>1 | *6.2*<br>8 | *7.533333333*<br>10 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *1.4*<br>1 | *1.633333333*<br>2 | *1.4*<br>1 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>1 | *21.7*<br>20 | *26.36666667*<br>24 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *1.4*<br>1 | *1.633333333*<br>2 | *1.4*<br>1 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>1 | *21.7*<br>22 | *26.36666667*<br>26 |
| | *0* | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *6*<br>6 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *93*<br>93 | *113*<br>113 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAI 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYRFF ALLANOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CADARNHAU APWYNTIADAU I GYRFF ALLANOL AR GYFER 2019/20** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir

Yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.7 (ii) y Cyngor, mae’n ofynnol i’r cyfarfod blynyddol dderbyn a chadarnhau rhestr o aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol sydd ddim yn gorfod bod yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad. Mae manylion apwyntiadau cyfredol ynghlwm i’r adroddiad yma ac ymgynghorwyd gydag Arweinyddion Grŵp. Mae'r rhain yn apwyntiadau gwahanol i’r apwyntiadau a wneir gan yr Arweinydd.

## 2.0 Argymhelliad

Cytuno a chadarnhau'r apwyntiadau a welir yn y rhestr ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**16/04/19**

# ATODIAD

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU**

**CYNRYCHIOLAETH I'W BENDERFYNU A'I GADARNHAU GAN Y CYNGOR LLAWN**

| **Rhif** | **Teitl** | **Nifer yr Aelodau sydd eu hangen** | **Enwau'r Cynrychiolydd (wyr)** |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf* ***** | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Eric Jones |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | Richard Griffiths, Eric Jones |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | Dylan Rees |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)* ****** | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Glyn Haynes |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | Llinos Medi Huws, Ieuan Williams |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a G.O. Jones |
| 7. | Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd *(Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a Dafydd Rhys Thomas |
| 8 | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE | 5 | Richard Dew, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Robin Williams, Eric Jones |
| 9. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru *(Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol er mwyn dilyniant i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)*. ******* | 1 | Dylan Rees |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. | CAB Ynys Môn | 1 | Nicola Roberts |
| 11. | Medrwn Môn *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | Llinos Medi Huws |
| 12. | Grŵp Mynediad Ynys Môn | 1 | R.G. Parry, OBE, FRAgS |
| 13. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 14. | Cwmni Frân Wen *(Sylwedydd)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 15. | Pwyllgor Rheoli CYNNAL *(2 Aelod i gynnwys Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Dafydd Roberts |
| 16. | Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | 1 | Llinos Medi Huws |
| 17. | Panel Maethu | 1 | Richard Griffiths |
| 18. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(hawl i 2 aelod gydag un ohonynt yn Ddeilydd Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | John Griffiths |
| 19. | Partneriaeth Cronfa Ddatblygu Cynaliadwy | 1 | Richard Dew |
| 20. | Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | 5 | Alun Mummery, Kenneth Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, G.O. Jones |
| 21. | Fforwm Iaith Môn | 1 | Ieuan Williams Bryan Owen G OJones Lewis Davies |

*** Mae gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r penodiadau hyn**
**** Mae'r Rheoliadau yn awr yn caniatáu hyd at 2 aelod heb eu hethol i gynrychioli'r Awdurdod**
***** Mae'r Panel yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Ynys Môn i ddod o Grwp Plaid Cymru**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **14 Mai 2019** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Fframwaith ar gyfer Taliadau i Aelodau yn 2019/20** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd / Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cadarnhau nifer y swyddi uwch gyflogau ar gyfer 2019/20** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae'r taliadau i aelodau, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig, ar gyfer 2019/20 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Y Panel) yn ei adroddiad blynyddol dyddiedig Chwefror 2019. Gosodir y prif newidiadau yn yr adroddiad hwn. Mae angen adrodd i'r Cyngor ar y wybodaeth hon er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog. . Mae Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar y ffigyrau newydd ac yn adlewyrchu'r costau ychwanegol.

Mae'r penderfyniadau yn adroddiad Chwefror 2019 yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

## 2.0 Cyflog Sylfaenol

Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd cynnydd o £268 y flwyddyn yn lefel y cyflog sylfaenol blynyddol i £13,868 (cynnydd o 1.97% sy'n adfer lefel y cyflog sylfaenol i'r swm a dalwyd yn 2011).

## 3.0 Uwch Gyflogau

### 3.1 Nifer yr uwch gyflogau

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn parhau, sef cyfanswm o 16 i Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig. Mae'r ffigwr yma'n unol ag Adroddiad Atodol y Panel dyddiedig Rhagfyr 2017 ac, yn dilyn adolygiad yn ddiweddar, mae'r Panel wedi cadarnhau ar 22 Mawrth 2019 y bydd y cyfanswm o 16 yn parhau.

**3.2 Taliadau i’r Pwyllgor Gwaith**

Bydd yna gynnydd o £800 i aelodau’r Pwyllgor Gwaith, sy’n cynnwys y cynnydd o £268 i’r cyflog sylfaenol. Nid yw'r Panel wedi cynyddu'r uwch-gyflogau sy'n cael eu talu i ddeiliaid y swyddi hyn ers chwe mlynedd.

**3.3 Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf**

Ni fydd cynnydd i uwch gyflog Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf, ond mae’r cyfanswm a delir yn adlewyrchu’r cynnydd o £268 i’r cyflog sylfaenol.

**3.4 Bandiau Uwch Gyflog**

| **Uwch Gyflogau 2019/20 (sy’n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£44,100**<br>**£31,100** |
| **Band 2** | Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith | **£27,100** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y’u telir) | **£22,568** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | **£22,568** |
| **Band 5** | Arweinydd grŵp gwrthbleidiol arall* | **£17,568** |

**3.5 Uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol**

Mae’r Panel wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd trwy roi darpariaeth i awdurdodau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i’r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol, neu na ellid gwneud lle iddynt o fewn uchafswm uwch-gyflogau’r awdurdod. Os yw’r ychwanegiad arfaethedig yn cael ei gymeradwyo ac yn achosi i’r Cyngor fynd y tu hwnt i’r cap hwn, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gymeradwyaeth, heblaw am Gynghorau Merthyr Tudful ac Ynys Môn[1].

**3.6 Trefniadau Rhannu Swyddi**

Mae rhai cynghorau wedi codi’r posibilrwydd o weithredu rhai swyddi ag uwchgyflogau yn ôl trefniant “rhannu swyddi”. Mae’r Panel yn cefnogi’r egwyddor hon a chaiff y broses ei nodi ym Mharagraff 3.27 o’r Adroddiad Blynyddol

[1] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Adran 142 (5) Ni all y gyfran sy'n cael ei gosod gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn uwch na hanner cant y cant oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i hynny.

Ni ellir mynd y tu hwnt i'r uchafswm statudol ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm. O dan y Mesur, nifer y bobl sy'n cael uwch-gyflog, nid nifer y swyddi ag uwch-gyflogau, sy'n cyfrif tuag at y cap. Felly, ar gyfer yr holl drefniadau rhannu swyddi bydd y cap uwch-gyflog yn cael ei gynyddu yn amodol ar yr uchafswm statudol o 50% o aelodaeth Cynghorau, neu uchafswm o 16 yn achos Ynys Môn.

### 3.7 Cyflogau Dinesig

Ar gyfer 2018/19, penderfynodd y Cyngor y dylid talu cyflogau dinesig lefel 3 i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig (sef £19,300 a £14,300).

Mae cynghorau wedi dweud yn gadarn wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn i'r cynghorau eu hunain gyfateb lefel gweithgareddau neu ddyletswyddau aelod penodol â lefel o gyflog ar gyfer y rôl. Mae pob dewis o'r fath bellach wedi'u dileu. Ar gyfer 2019/20, mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn rhaid talu cyflog:

**£22,568 (**Band 3) i bennaeth dinesig (pan fo'n cael ei dalu) a

**£17,568** (Band 5) i ddirprwy bennaeth dinesig (pan fo'n cael ei dalu).

## 4.0 Penderfyniadau Newydd ar gyfer 2019/20

Tra bod yn penderfyniadau isod wedi'u hychwanegu ar gyfer 2019/20, nid yw'r gofynion ynddynt yn newydd gan eu bod wedi'u cynnwys yn flaenorol fel '*ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel'*:

| |
|---|
| ***Penderfyniad 6:***<br>• *Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch-swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi.*<br>• *Ni ddylid talu uwch-gyflog a chyflog dinesig i aelodau etholedig.*<br>• *Mae'r cyflog sylfaenol yn gymwysedig ym mhob uwch-gyflog a chyflog dinesig a delir.*<br>• *Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch-gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch-gyflog aelodau gweithediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch-gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.* |
| ***Penderfyniad 7:***<br>*Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo.* |
| ***Penderfyniad 8:***<br>*Ni all aelodau sy'n cael cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw dâl gan Gyngor Cymuned neu Dref y maent yn aelod ohono, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal.* |

## 5.0 Penderfyniadau sy'n berthnasol i Aelodau Cyfetholedig

Mae penderfyniadau 36 a 37 isod wedi'u diweddaru i *"**rhaid** i swyddog priodol*" a "***Rhaid** talu ffioedd*.." yn hytrach na'r gair '*Gall'* a oedd yn y penderfyniadau hyn y llynedd:

| |
|---|
| ***Penderfyniad 36:***<br>*Rhaid i swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe delir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.* |
| ***Penderfyniad 37:***<br>*Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.* |

Mae penderfyniad 38 isod yn un newydd i aelodau cyfetholedig (ceir cyfeiriad at gefnogaeth i aelodau etholedig ym mhenderfyniadau 9 a 10):

| |
|---|
| ***Penderfyniad 38:***<br>*Rhaid i bob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, bod ei holl aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol.* |

## 6.0 Parcio Ceir Aelodau

Mae gan nifer o gynghorau drefniadau penodol ar gyfer eu haelodau o ran parcio ceir. Mae'r Panel o'r farn mai mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar drefniadau gan gynnwys taliadau i a gan aelodau, ar yr amod ei fod yn benderfyniad ffurfiol gan y cyngor.

## 7.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

7.1 gadarnhau y dylid talu uwch gyflogau ar gyfer yr 16 swydd canlynol yn ystod 2019/20:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf

7.2 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

**Marc Jones**
**Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151**

**7 Mai 2019**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2019)
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/pacga-adroddiad-blynyddol-2019.pdf

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR DEMOCRATAIDD – CYFARFOD ARBENNIG** |
| **DYDDIAD:** | **2 MAI 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG EBRILL 2019 - MAWRTH 2020** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I'R PWYLLGOR GYMERADWYO CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2019/20** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MIRIAM WILLIAMS, RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

Bu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynhaliwyd ar y 25 Mawrth 2019 gymeradwyo'r adroddiad gyflwynwyd gan Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ynglyn a'r Strategaeth Datblygu Aelodau ar gyfer y cyfnod 2019/2022 (gweler atodiad 1).

Mae'r adroddiad yma'n manylu ar y Cynllun Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 (gweler atodiad 2), sy'n cymeryd i ystyriaeth mewnbwn dderbyniwyd gan Arweinyddion Grwpiau yn dilyn Adolygiadau Datblygu Personol (CDP) yn ogystal â mewnbwn gan Uwch Swyddogion.

Mae'r rhaglen yn rhoi fframwaith amlinellol ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant gyda rhai elfennau'n cael ei cario drosodd o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r rhaglen datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig yn ogystal ag Aelodau Cyfetholedig/Lleyg lle bô'n addas.

Darperir yr hyfforddiant ar sawl ffurf e.e. gweithdai; mentora; e-ddysgu; hyfforddiant un-i-un ac ati. Os oes modd, cynigir cyfleoedd hyfforddi sy'n gyfuniad o wahanol ddulliau dysgu er mwyn gwella'r broses.

Mae'r Awdurdod yn barod yn cynnig cefnogaeth E-Ddysgu er mwyn annog datblygiad personol ac mae datblygiadau pellach yn cael ei hystyried yn Genedlaethol ac yn Lleol

er mwyn sicrhau fod y sustem yn fwy cyraeddadwy yn ogystal a chreu modiwlau perthnasol pellach.

Er mwyn gwneud y mwyaf posib o bresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant a chan gymeryd i ystyriaeth cyfrifoldebau gofal/trefniadau gweithio a.y.y.b. ar gyfer Aelodau Etholedig, lle'n bosib cynigir cymysgedd o sesiynau yn ystod y dydd a chyda'r nos. Pryd bynnag y bo modd, bydd y sesiynau'n cael eu trefnu ar gyfer dyddiau Iau / Gwener, gan osgoi prynhawn dydd Iau cyntaf pob mis er mwyn osgoi gwrthdaro gyda sesiynau briffio ar gyfer Aelodau.

Bwriedir i'r rhaglen fod yn un sy'n "esblygu" ac sy'n cymryd i ystyriaeth bod blaenoriaethau'r Awdurdod a ffactorau allanol, tra'n cymeryd i ystyriaeth anghenion hyfforddiant personol yr Aelodau eu hunain.

Mae gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl allweddol wrth fonitro cynnydd ar sail reolaidd, gan gynnwys adolygu / diweddaru'r rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i'r gofynion ac o'r ansawdd cywir. Cyflwynir adroddiadau ar gynydd Rhaglen Datblygu Aelodau Etholedig i'r Pwyllgor Safonau, fel y bo'n briodol.

**<u>ARGYMHELLIAD:</u>**

**Mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant amgaeedig fel fframwaith ar gyfer Datblygu Aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 ac argymell cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.**

**Yn ogystal, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud unrhyw addasiadau pellach fel sy'n briodol.**

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu a Hyfforddiant Adnoddau Dynol**
**Ebrill 2019**

ATODIAD 1

# Cyngor Sir Ynys Môn

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

## 2019 – 2022

## ‘Siapio’r dyfodol drwy ddatblygu pobl’

30/01/2019 20:16

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

## 1. CYFLWYNIAD

Nod y Cyngor Sir yw darparu gwasanaethau o safon uchel, sy'n effeithiol, yn gost effeithiol a hynny o fewn cyd-destun o bwysau cynyddol ac adnoddau cyfyngedig.

Mae gan Aelodau rôl hanfodol i'w chwarae o ran gosod cyfeiriad y Cyngor, sydd wedi'i amlinellu yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hon yn her sylweddol, yn enwedig wrth ystyried y cyllidebau llai a phwyslais cynyddol ar gymunedau'n helpu eu hunain. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod pwysau cynyddol, a disgwyliadau cynyddol, ar Aelodau, o ystyried cyflymder newidiadau deddfwriaethol a'r amgylchedd sy'n newid yn barhaus. Felly, mae angen sicrhau bod cymorth a llwybrau datblygu effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi aelodau i fodloni gofynion eu rolau ac i fod yn effeithiol yn yr amgylchedd hwn sy'n newid mor gyflym ac sy'n gynyddol heriol.

Mae Aelodau yn dod â chyfuniad gwerthfawr o brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd o amrywiaeth o wahanol feysydd. Mae'r Cyngor yn deall y dylid datblygu aelodau drwy adeiladu ar y sgiliau hyn ac mewn modd sy'n golygu y gall Cynghorwyr barhau i ddatblygu yn ystod eu cyfnodau yn y swydd.

Canlyniad Strategaeth Datblygu Aelodau lwyddiannus fydd bod gan y Cyngor Aelodau effeithiol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth er mwyn cyfrannu at nodau Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Noder y dylid darllen y strategaeth hon ochr yn ochr â "Polisi Dysgu, Hyfforddiant a Datblygiad" Corfforaethol yr Awdurdod.

Wth dderbyn yr heriau hyn, rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei Aelodau fel eu bod:-

- Yn ymateb i newidiadau a gwelliant parhaus.
- yn gwneud y gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael.
- Yn gallu herio'r Cyngor a sefydliadau eraill yn deg ac yn gallu adnabod arferion gorau drwy waith craffu effeithiol.
- Yn canolbwyntio ar wneud y gorau o'r canlyniadau a ddarperir gan y gwasanaethau cyhoeddus o fewn yr hinsawdd heriol o ddiffyg adnoddau.
- Yn arweinwyr cymunedol dylanwadol.

## 2. PWRPAS

Mae'r Strategaeth hon yn darparu fframwaith i'r Cyngor er mwyn galluogi Aelodau i ymgymryd â rolau fel arweinwyr cymunedol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu llwybrau dysgu a datblygu ar gyfer yr holl Aelodau ac yn egluro'r hyn y gall yr Aelodau ei ddisgwyl o'r Cyngor a'r Cyngor o'i Aelodau.

Drwy ddarparu cyfleoedd datblygu, bydd Aelodau mewn gwell sefyllfa i gyflawni'r gwahanol rolau a ddisgwylir ohonynt fel Cynghorwyr. Y nod yw galluogi Aelodau Etholedig i allu gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon wrth gyflawni'r rolau hyn ac adnabod a bodloni'r anghenion dysgu a datblygu unigol yr holl Gynghorwyr o fewn y rôl honno, sy'n hanfodol i'r broses hon.

Bydd y cyfleoedd a gynigir yn amrywio ac yn gyfuniad o ddysgu a fydd yn cynnwys cyflwyniadau o ffynonellau mewnol ac allanol; seminarau; gweithdai, yn ogystal â chyrsiau hyfforddiant ystafell ddosbarth penodol a chyfleoedd E-ddysgu. Fel rhan o'r ymrwymiad i ddarparu'r cyfleoedd hyn, mae'r Cyngor Sir yn dyrannu cyllideb arbennig i'w cefnogi.

Mae Aelodau Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Safonau, Archwilio a Sgriwtini hefyd yn cael eu hannog i ymgymryd â datblygiadau penodol er mwyn gallu bodloni anghenion eu rolau o fewn eu pwyllgorau penodol.

## 3. NODAU AC AMCANION

Mae Datblygiad Aelodau yn cyfeirio at unrhyw weithgareddau datblygu neu raglenni hyfforddiant sydd wedi eu llunio yn benodol er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd Aelodau Etholedig yn eu rolau amrywiol.

Er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn bodloni anghenion Aelodau'r Cyngor, bydd gweithgareddau yn cael eu cynllunio'n gywir, yn cael eu hariannu o fewn y cyfyngiadau cyllidebol presennol ac yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

Prif amcanion y strategaeth yw:-

- rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau yn eu rolau presennol (fel y nodir yn eu swydd ddisgrifiadau) a'u rolau yn y dyfodol
- darparu sesiynau cynefini integredig a pharhaus er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth drwy ddatblygu cyfleoedd ar gyfer yr holl Aelodau.
- Darparu cefnogaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion Aelodau yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant unigol.

Bydd y Cyngor yn darparu Aelodau Etholedig â hyfforddiant hyblyg ac ymatebol a chyfleoedd datblygu sy'n seiliedig ar anghenion unigol ac anghenion y sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod Aelodau mor effeithlon ag sy'n bosibl yn eu rolau amrywiol er mwyn sicrhau bod Cyngor Ynys Môn yn cael ei ystyried fel arweinydd o ran y cymorth y mae'n ei ddarparu ar gyfer Aelodau Etholedig.

## 4. EGWYDDORION

Mae agwedd y Cyngor tuag at ddatblygiad Aelodau yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae dysgu yn rhan o ddiwylliant ein sefydliad.
- Bydd y cyfleoedd a ddarperir yn galluogi Aelodau i fod yn arweinwyr cymunedol effeithiol ac i chwarae eu rhan wrth ddarparu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Mae'r amrywiaeth o rinweddau sydd eu hangen ar bod Aelod i fod mor effeithiol ag sy'n bosibl yn cynnwys:

- o dealltwriaeth wleidyddol
- o sgiliau cyfathrebu
- o arweinyddiaeth gymunedol
- o gweithio ag eraill
- o rheoleiddio a monitro
- o craffu a herio

- Bydd Aelodau newydd angen cyfleoedd datblygu yn gynnar yn eu cyfnodau yn y swydd er mwyn eu galluogi i fod yn effeithiol yn eu rôl ac felly bydd Rhaglen Gynefino briodol ac amserol yn cael ei darparu er mwyn cwrdd â'r anghenion hynny.

- Ymrwymiad gan Aelodau yn ystod eu cyfnod yn y swydd i fynd ati'n rhagweithiol i gael mynediad i, ac i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygu er mwyn adnewyddu sgiliau; datblygu sgiliau ychwanegol a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol

- Ymrwymiad gan Aelodau i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol a fydd yn cael ei oruchwylio gan Arweinwyr Grwpiau

- Ymrwymiad gan Aelodau i ymgymryd ag adolygiadau datblygiad perfformiad blynyddol fel y gellir eu bwydo i mewn i'r rhaglen flynyddol ar gyfer datblygu aelodau.

- Cyfleoedd ychwanegol er mwyn galluogi Aelodau i fod yn llwyddiannus wrth ymgymryd â rolau penodol ar y Pwyllgor Gwaith penodol a rolau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r Pwyllgor Gwaith.

- Mae Aelodau yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth ymysg eu cyfoedion.

- Bydd yr agwedd tuag at ddysgu yn hyblyg er mwyn cydnabod fod gan Aelodau wahanol anghenion y bydd angen darparu ar eu cyfer mewn ffyrdd gwahanol ond gyda phwyslais cynyddol ar e-ddysgu.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yr holl Aelodau yn wahanol ac mae wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal o ran dysgu a datblygiad.

- Mae Aelodau yn cael eu hannog i ddiweddaru eu cofnodion hyfforddiant ar-lein yn rheolaidd ac i gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'r hyfforddiant y maent wedi ei dderbyn.

## 5. RHAGLEN DATBLYGU AELODAU

Y tîm Adnoddau Dynol fydd yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen gan ymateb i arweiniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, adborth gan Swyddogion/Aelodau Etholedig ynghyd â Thîm Rheoli Strategol yr Awdurdod.

Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno gan y tîm Adnoddau Dynol yn rheolaidd a hynny i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adrodd yn ôl yn flynyddol i'r Cyngor ar y rhaglen datblygu Aelodau.

## 6. ADNODDAU

### Cyllidebau

Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am Ddatblygiad Aelodau. Bydd cyllideb flynyddol yn cael ei chynnwys yn y gyllideb Hyfforddiant Corfforaethol er mwyn cefnogi gweithgareddau Datblygu Aelodau.

### Adnoddau Ar-lein

Mae'r Cyngor yn deall y pwysau sydd ar amser Aelodau a'r cyfleoedd cadarnhaol a gynigir gan dechnoleg. Mae Mewnrwyd benodol y Cyngor yn caniatáu mynediad i Aelodau i amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys:

- Cyflwyniad i ddeunyddiau a chyflwyniadau
- Dolenni i fodiwlau e-ddysgu ac adnoddau ar-lein sydd wedi'u creu ar gyfer Cynghorwyr, megis y rhai hynny gan y CLlLC
- Gwybodaeth am gyfrifoldebau allweddol Cynghorwyr e.e. Diogelu / Rhiant Corfforaethol.
- Canllawiau defnyddwyr a chyngor ar ddefnyddio technoleg.
- Gwybodaeth am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda dolenni i gynlluniau allweddol, strategaethau a chyfathrebiadau.
- Dolenni defnyddiol i wefannau eraill sy'n fewnol ac yn allanol i'r Cyngor.

### Sesiynau Datblygu

Bydd yr holl hyfforddiant Aelodau a gweithgareddau datblygu a gynigir:-

- Yn cael eu darparu gan y darparwyr hyfforddiant neu'r hwyluswyr mwyaf effeithiol a phriodol o'r tu mewn i'r Awdurdod neu'r tu allan iddo.
- Yn ymateb i anghenion Aelodau o ran dull neu ddiwyg darparu.
- Yn ystyried egwyddorion polisïau perthnasol y Cyngor.
- Yn cael eu trefnu ar amseroedd ac yn y lleoliadau sydd fwyaf addas i Aelodau.

### Adborth a Gwerthuso
Mae hyfforddiant yn cael ei fonitro ar gyfer dibenion ansawdd a bydd pob sesiwn datblygu yn cael ei gwerthuso drwy ystyried y ffurflenni gwerthuso y bydd Aelodau Etholedig / Aelodau Cyfetholedig yn cael eu hannog i'w llenwi.

Mae hyn yn darparu cyfle i unigolion nodi yr hyn maent wedi'i ddysgu; darparu adborth o ran y modd y darparwyd y cwrs a nodi unrhyw ofynion hyfforddiant sydd ganddynt. Mae copi o'r ffurflen hon wedi'i hatodi fel Atodiad 1.

Yn ychwanegol at hynny ceir adborth gan Arweinwyr Grŵp ar effaith cyfleoedd dysgu ar effeithlonrwydd eu Haelodau drwy'r ffurflenni Adolygu Datblygiad Personol (PDR).

## 7. CYFLAWNI'R SRATEGAETH

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn goruchwylio gweithrediad y strategaeth drwy adrodd i'r Cyngor, AC yn cytuno ar ac yn adolygu gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Aelodau Etholedig.

DRAFT

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygiad Corfforaethol / AD**
**Chwefror 2019**

Atodiad 2

| RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2019/20<br><br>Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis er mwyn arbed gwrthdaro gyda sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd. | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL** | **CYNULLEIDFA**<br><br>**Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig/Lleyg lle'n berthnasol** | **DULL** | **PRYD** |
| **Rheoli'r Trysorlys** | Pob Aelod Etholedig | Allanol | **Mehefin 2019** |
| **Materion Diogelu** - Diweddariad | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | **I'w gadarnhau** |
| **Craffu:** Cyfres o wahanol feysydd datblygu yn ffocysu are.e. Hunan-Asesu/Arfarnu; Craffu Data Perfformiad; Sgiliau Cadeirio; Craffu Cyllidol; | Pob Aelod Etholedig | Mewnol/Allanol/E-Ddysgu | **I'w gadarnhau** |
| **Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol** (Deddf 2015 (Cymru) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy Mewnol | **I'w gadarnhau** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol** (GDPR) - Adnewyddu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Cyflwyniad i Gydraddoldeb** | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Allanol | **Mai 2019** |
| **Asesiad Effaith Cydraddoldeb** | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion** | Pob Aelod Etholedig | E-ddysgu/Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Dull Cenedlaethol i Eiriolaeth Statudol** | Pob Aelod Etholedig | Natalie Brimble<br><br>TrosGynnal Plant | **I'w gadarnhau** |
| **Sgiliau Cadeirio (Rheolaeth Cyfarfodydd)** | Pob Cadeirydd | E-Ddysgu/Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **CLlLC Rhaglen Arweinyddiaeth** | Aelodau Etholedig wedi ei enwebu | Gweithdai Rhanbarthol | **Hydref - Tachwedd 2019** |
| **Trwyddedu** - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu **(M)** | Mewnol | **I'w gadarnhau** |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch** – Diweddariad | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Cynllunio**<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau Etholedig yn y broses cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Cynllunio - Sesiwn Diweddariad Cyffredinol** | Pob Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio **(M)** | Mewnol/Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Materion Tai**<br>• Trefniadau Aml Asiantaethol Gwarchod y Cyhoedd (MAPPA)<br>• Credyd Cynhwysol | Pob Aelod Etholedig<br>Pob Aelod Etholedig | Mewnol/Allanol<br>Mewnol | **I'w gadarnhau**<br>**I'w gadarnhau** |
| **Cyfansoddiad - Briffio** | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | **I'w gadarnhau** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Delio gydag Unigolion Heriol a Sefyllfaoedd Anodd** | Pob Aelod Etholedig | Allanol | **I'w gadarnhau** |
| **Arweinyddiaeth Cymunedol ac Adnabod Grantiau** | Pob Aelod Etholedig | Allanol | **I'w gadarnhau** |

**SGILIAU TG**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnydd IPads** | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | **Mai 2019** |
| **Sgiliau Cyffredinol TG** | Pob Aelod Etholedig – fel bô'r angen | Mewnol | **Cyfredol** |
| **Cofnod Electronic Personol (Trafeilio/Hyfforddiant)** Mewnbynnu a Diweddaru | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | **I'w gadarnhau** |
| **Sgiliau Cyfryngau e.e. Facebook/Twitter** | Pob Aelod Etholedig | E-Ddysgu/Allanol | **I'w gadarnhau** |

DRAFT

Atodiad 2

**MODIWLAU E-DDYSGU**

**Mae mynediad hyblyg i Fodiwlau E-Ddysgu ar gael i Aelodau Etholedig. Gweler isod am fanylion o'r pynciau sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael ei cyflwyno'n achlysurol fel maent yn cael ei datblygu a bydd manylion o'r rhain ar gael ar MonITor.**

- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol
- Ysgrifennu Effeithiol
- Rheoli Eich Hun a'ch Amser
- Deallusrwydd Emosiynol
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Atal
- Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ymwybyddiaeth Straen
- Croeso Cymraeg Gwaith
- Moesau a Safonau
- Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol
- Cadeirio Cyfarfodydd
- Sgiliau Siarad Cyhoeddus
- Cyflwyniad i Graffu
- Y Cynghorydd Ward Effeithiol
- Rhiantu Corfforaethol



DRAFT

Atodiad 2

**(M) = Mandadol**

**Mae'r rhaglen yn gynllun esblygiadol fydd yn cael ei diwygio i gynnwys unrhyw hyfforddiant pellach gaiff ei adnabod yn ystod y flwyddyn.  Yn ogystal bydd sesiynau briffio ar faterion allweddol strategol yn cael ei cynnal yn fisol.**

**Annogir Aelodau Etholedig i gwblhau taflenni gwerthuso ar gyfer unrhyw hyfforddiant maent yn fynychu er mwyn gallu adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant pellach.  Annogir hwy hefyd i gofnodi ei mynychiant ar lein.**

DRAFT